



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar Dderbyniadau

www.gov.wales



Rhagair gan y Gweinidog



Mark Drakeford AC

Gall mynd i'r ysbyty am unrhyw gyflwr, waeth beth fo'ch oedran, fod yn brofiad gofidus sy'n achosi straen. Pan fydd angen triniaeth fel claf mewnol ar blentyn oherwydd salwch meddwl, mae hyn yn ychwanegu dimensiwn arall, gyda heriau ychwanegol i'r person ifanc, y rhai sy'n darparu ei ofal a'i deulu. Yng Nghymru, cynlluniwyd ein polisi a'n hymarfer i leihau gofal yn yr ysbyty i bobl ifanc sydd â phroblem iechyd meddwl i'r cyfnod lleiaf posibl.

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael triniaeth briodol ac amserol yn flaenoriaeth nid yn unig i Lywodraeth Cymru, ond mae hefyd yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yr ystyriaeth gyntaf yw sicrhau bod y person ifanc yn cael gofal mewn amgylchedd gofalgaf a chefnogol sy'n briodol i'w oedran. Mae'r canllawiau hyn yn gwahaniaethu'r achosion hynny lle na ellir osgoi derbyn rhywun i'r ysbyty oddi wrth y rhai lle mae'n well osgoi gwneud hynny. Mewn amgylchiadau lle na ellir osgoi derbyn rhywun i ward oedolion, y pryder pennaf yw sicrhau bod y person ifanc yn ddiogel. Dylai staff cymwys ofalu amdano a, chyn gynted ag y bo'n ymarferol, dylid ei symud i gyfleuster mwy priodol. Mae hefyd yn bwysig cofnodi ac adolygu'r digwyddiadau hyn er mwyn sicrhau y dilynwyd y prosesau cywir ac y gellir dysgu gwersi i lywio'r modd y rheolir digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae amlder yr achosion amhriodol o dderbyn plant i'r ysbyty ac anghysondeb yr adroddiadau, wedi bod yn achos pryder y tynnwyd sylw ato mewn nifer o adolygiadau gwasanaeth, fel 'Child and Adolescent Mental Health Services: Follow-up Review of Safety Issues' Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013. Mewn ymateb, rydym wedi gweithio gyda'r GIG a phartneriaid i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy wella mynediad i ddwy uned cleifion mewnol benodedig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac ymestyn yr hyn a ddarperir gan Dimau Triniaeth Ddwys Cymunedol CAMHS i gwmpasu Cymru gyfan. Mae hyn yn golygu y gall llawer mwy o bobl ifanc bellach gael help a chefnogaeth yn y gymuned, heb orfod mynd i'r ysbyty.

Fodd bynnag, bydd adegau bob amser pan fydd yn fwy priodol i rywun fynd i'r ysbyty. Yn yr achosion hyn, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y dylai plant sy'n mynd i'r ysbyty gael gofal yn yr amgylchedd mwyaf priodol; a rhaid i hyn ystyried eu

hoedran a'u hanghenion datblygu; a'u hawl, lle y bo'n gymwys, i ddewis ble i gael triniaeth. Mae gan y person ifanc 17 oed, sy'n byw a gweithio fel oedolyn ym mhob ystyr arall, yr hawl i gael ei driniaeth mewn amgylchedd i oedolion, os yw'n dymuno hynny ac os yw er budd iddo.

Mae'r canllawiau hyn yn ceisio egluro'r gwahaniaeth hwnnw, i ddiogelu pobl ifanc; rhoi'r hawl i ddewis i'r rheini sy'n ddigon aeddfed ac yn ddigon cymwys, i wneud y penderfyniad; i sicrhau eglurder a chysondeb ar gyfer staff iechyd meddwl wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau; ac i sicrhau y gall y gwasanaethau cynllunio hynny ddysgu gwersi o'r broses o reoli derbyniadau.

Datblygwyd y canllawiau hyn gyda help a chynngor y rheini sy'n gysylltiedig â CAMHS a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion a hoffwn ddiolch i gydweithwyr a'r sefydliadau dan sylw am gyfrannu at eu datblygiad. Bydd hyn yn pennu safonau clir ar gyfer dull gweithredu cyson yng Nghymru pan gaiff plentyn neu berson ifanc ei dderbyn i'r ysbyty oherwydd anhwylder meddyliol neu sefyllfa o argyfwng.

Canllawiau ar Dderbyniadau Amhriodol

1. Cyflwyniad

Yn dilyn cyhoeddi "Busnes Pawb" yn 2002¹, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithio gyda GIG Cymru a phartneriaid allweddol i wella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Parhaodd y gwaith hwn gyda Chynllun Gweithredu CAMHS Chwalu'r Rhwystrau (2010)² ac yn 2012, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl³. Ymrwymiad allweddol yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth (cam gweithredu 12.4 (c)) yw lleihau'r niferoedd amhriodol o blant dan 18 oed sy'n cael eu derbyn i wardiau oedolion. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y dylai plant sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth gael gofal yn yr amgylchedd mwyaf addas ac y dylai hyn ystyried eu hoedran a'u hanghenion datblygu. Diffinnir plentyn neu berson ifanc fel rhywun dan 18 oed yng Nghod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 (adran 33.9). Mae Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn ⁴cadarnhau'r disgwyliad hwn.

Tynnodd adolygiad dilynol Swyddfa Archwilio Cymru/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o faterion diogelwch yn CAMHS⁵ (Rhagfyr 2013) sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy o waith i leihau niferoedd y plant sy'n cael eu hanfon i wardiau oedolion, gan gynnwys:-

- adrodd yn gywir am nifer y rhai dan 18 oed sy'n cael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl oedolion, nodi'r derbyniadau hynny sy'n amhriodol a'r camau a gymerwyd i leihau risgiau;
- adrodd am nifer y wardiau dynodedig, pa mor briodol yw eu hamgylcheddau, a'r nifer sy'n cael eu derbyn i wardiau dynodedig a heb eu dynodi;
- amrywiaeth o enghreifftiau manwl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru o'r hyn sy'n gyfystyr ag achos amhriodol o dderbyn person ifanc i ward iechyd meddwl oedolion.

¹ www.wales.nhs.uk/publications/men-health-e.pdf

² <http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/130326breakingbarriersen.pdf>

³ <http://wales.gov.uk/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?lang=cy>

⁴ www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=816&pid=33960

⁵ https://www.wao.gov.uk/system/files/.../CAMHS_English_2013.pdf

2. Y Canllawiau

Nod y canllawiau hyn yw mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan waith Swyddfa Archwilio Cymru/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a rhoi cyfarwyddyd ar bwysigrwydd cymorth a thriniaeth effeithiol i bobl ifanc dan 18 oed. Mae'r canllawiau yn nodi'r llwybrau, y prosesau a'r gweithdrefnau y mae disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gydymffurfio â hwy er mwyn i ni allu sicrhau diogelwch y claf a sicrhau y caiff y cymorth a'r driniaeth briodol.

2.1 Egwyddorion Arweiniol

1. Sicrhau bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn addas i'r diben ac yn diwallu eu hanghenion a aseswyd, gan ystyried gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
2. Cydweithio i sicrhau bod gofal i blant a phobl ifanc yn cael ei integreiddio ar draws gwasanaethau ar hyd llwybr gofal cadarn, di-dor.
3. Dylai gwasanaethau cleifion mewnol ystyried anghenion unigolion a datblygu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion hynny yn y ffordd orau.
4. Dylai diogelwch y person ifanc fod yn ystyriaeth hollbwysig ym mhob penderfyniad a wneir ynghylch derbyn pobl ifanc i wardiau iechyd meddwl oedolion.
5. Cydnabod anghenion pobl ifanc ac ymateb i'r anghenion hynny, gan gynnwys cael gwasanaethau yn eu dewis iaith, fel Cymraeg ac mae'n bwysig bod yr angen hwn yn cael ei ddiwallu fel rhan naturiol o'r gofal, yn unol â "mwy na geiriau"⁶

2.2 Adrodd am Ddigwyddiad Difrifol (SI)

Atgoffodd gohebiaeth Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2011 (atodiad 1) BILlau o'r angen i gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol o ran lleoli plant yn briodol mewn ysbytai. Atgoffodd BILlau hefyd, pan fydd amgylchiadau'n mynnu bod rhywun dan 18 oed yn cael ei anfon i ward oedolion, y dylai pob ardal BILl gael ward ddynodedig/wardiau dynodedig, neu ardaloedd wardiau sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn briodol. Nododd hefyd y gofynion o ran adrodd am ddigwyddiadau difrifol.

Mae'r canllawiau hyn bellach yn cael eu diweddarau ac, o 1 Ebrill 2015, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y canlynol yn unol â'i fframwaith dysgu ar gyfer digwyddiadau difrifol (fel y nodir yn y canllawiau Gweithio i Wella):

⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=898&id=194173>

- Pob achos o dderbyn plant a phobl ifanc 16 oed ac iau i wardiau iechyd meddwl oedolion;
- Pob achos o dderbyn pobl ifanc 16 a 17 oed i wardiau oedolion y tybir eu bod yn amhriodol i anghenion a dewis y claf.
- Plant a phobl ifanc 16 oed ac iau yr eir â hwy i fan diogel o dan adran 136, sy'n cynnwys gorsaf heddlu fel y'i diffinnir o dan adran 135 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Dylai'r adroddiad Digwyddiad Difrifol gynnwys y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i leoli ac a dybiwyd ei fod yn briodol neu'n amhriodol. Lle y bo'n bosibl, dylid hysbysu Llywodraeth Cymru o fewn 24 awr i'r digwyddiad. Yn dilyn digwyddiad o'r fath, bydd disgwyl i'r BILL roi sicrwydd bod y digwyddiad wedi cael ei adolygu'n drylwyr ac y nodwyd unrhyw beth a ddysgwyd ac y gweithredwyd arno o fewn yr amserlen ofynnol.

2.3 Monitro

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl:-

1. I bob achos o dderbyn pobl ifanc 16 a 17 oed i wardiau oedolion, a'r rhai sy'n dewis cael eu darpariaeth gwasanaeth gan wasanaethau iechyd meddwl oedolion gael ei gofnodi a'i adolygu gan y BILL ac i niferoedd y derbyniadau gael eu cofnodi.
2. Dylai BILLau hysbysu Llywodraeth Cymru am eu wardiau dynodedig yn flynyddol erbyn 1 Ebrill, ac egluro a gafodd pobl ifanc o dan 18 oed eu hanfon i wardiau dynodedig neu heb eu dynodi.
3. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gael ei hysbysu am achosion o blant a phobl ifanc o dan 16 oed a gaiff eu hanfon i'r ddalfa a dylid adrodd amdanynt fel digwyddiad anffafriol difrifol (SUI).

2.4 Darpariaeth Gymunedol

Dylai derbyn unrhyw berson ifanc i uned cleifion mewnol (IPU) (oedolyn neu CAMHS) fod yn ddigwyddiad prin. Dylai byrddau iechyd sicrhau bod gwasanaethau fel timau triniaeth cartref ddwys ar gael i bobl ifanc er mwyn lleihau'r angen pellach i'w derbyn fel cleifion mewnol. Yn ogystal, dylai BILLau hefyd sicrhau bod mewnbyn proffesiynol CAMHS ar gael saith diwrnod yr wythnos i ategu gwasanaethau pan ddarperir gofal y tu allan i'r ddwy uned cleifion mewnol CAMHS yng Nghymru. Rhaid i'r gwasanaeth a ddarperir i bobl ifanc mewn argyfwng neu'r rhai sydd angen gofal fel cleifion mewnol fod ar gael 24 awr y dydd. Bydd hyn yn golygu cydweithio da â'r gwasanaethau iechyd meddwl oedolion lleol, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gwasanaethau pediatrig.

2.5 Derbyn Plant i Uned Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl

Pan fydd angen gofal fel claf mewnol ar blentyn neu berson ifanc am anhwylder meddyliol, yn y mwyafrif helaeth o achosion, unedau cleifion mewnol CAMHS yng Nghymru fydd y man gofal mwyaf priodol. Cyn gynted ag y daw'r angen i dderbyn rhywun yn amlwg, dylai'r uwch aelodau o staff clinigol sy'n rheoli'r achos gysylltu â'r uned er mwyn cytuno ar gynllun gofal diogel a'i drosglwyddo os bydd angen. Disgwylir i hyn ddigwydd o fewn 24 awr pan fydd angen. Y tîm CAMHS arbenigol fydd yn penderfynu derbyn yn y pen draw, ond dylid gwneud hyn ar y cyd â phob clinigydd sy'n gysylltiedig â gofal y person ifanc, a dylai fod yn seiliedig ar asesiad risg cynhwysfawr.

2.6 Defnyddio CAMHS mewn unedau cleifion (Haen 4)

Dim ond pan fydd y canlynol yn gymwys y dylid ystyried atgyfeirio at y ddwy uned cleifion mewnol yng Nghymru:

1. Nid oes dewis amgen hyfyw ar gael yn lle triniaeth seiciatrig fel claf mewnol o fewn y ddarpariaeth leol o ofal iechyd meddwl ac mae pob opsiwn arall wedi ei ystyried yn drylwyr.
2. Gofal fel claf mewnol yw'r opsiwn lleiaf cyfyngol a mwyaf effeithiol a diogel sydd ar gael i reoli'r sefyllfa glinigol.
3. Mae'r claf yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer y gwasanaeth.

Gweler y ddolen atodedig ar gyfer meini prawf derbyn Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.⁷

2.7 Ymwneud Pediatrig

Pan fydd y person ifanc â phroblemau iechyd meddwl yn cael gofal iechyd corfforol, byddem yn disgwyl i bobl ifanc, 15 oed ac iau, gael gofal ar y wardiau pediatrig priodol. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, yn enwedig mewn perthynas â'r risg i'r claf ei hun neu i gleifion eraill yn yr unedau pediatrig, efallai y bydd angen anfon person ifanc o'r fath i'r ward gofal iechyd gyffredinol i oedolion. Bydd hyn o dan amgylchiadau eithriadol a dim ond ar ôl i asesiad risg gael ei wneud ac ar ôl trafodaethau priodol rhwng yr Uwch Nyrs CAMHS a'r Seiciatrydd/Pediatregydd Ymgynghorol a'r uwch glinigydd/rheolwr perthnasol o fewn gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion.

⁷ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=898&id=194173>

Dylai person ifanc barhau i allu cael cymorth gan CAMHS a phediatregwyr ar ôl cael ei dderbyn i ward iechyd meddwl, ac os oes awgrym bod yr achos sylfaenol yn un organig yna dylai'r uned bediatrig barhau i ymwneud yn agos â'r achos.

2.8 Derbyn Plant i Uned Cleifion Mewnol Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion

Fodd bynnag, ceir rhai amodau neu amgylchiadau lle y gallai fod angen darpariaeth wahanol;

- a. Bydd derbyn rhywun i ward iechyd meddwl ddynodedig i Oedolion er mwyn ei asesu a'i drin yn briodol os yw'r person ifanc yn 16 oed neu'n hŷn, **ac** os yw'n ddigon aeddfed ac yn mynegi ei fod am gael ei drin gan wasanaethau iechyd meddwl lleol i oedolion, **ac** os bydd y cyngor clinigol yn cadarnhau bod hyn yn briodol.
- b. Yn wir, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau dylai plant hŷn drwy rinwedd a8 Deddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969, fod yn gallu rhoi caniatâd dilys heb orfod gofyn i'r rhieni. Wedyn, mae'r amgylchiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod gydweithio er mwyn sicrhau y datblygir gwasanaethau pontio i'r grŵp oedran hwn, gyda chanlyniadau cytûn sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Er y gellir darparu gofal fel claf mewnol ar uned oedolion, bydd dal angen cynnwys a/neu gysylltu'n barhaus â staff CAMHS. Dylid cytuno'n ffurfiol ar y clinigydd arweiniol ac fel arfer byddai'n un o glinigwyr CAMHS ac eithrio mewn amgylchiadau penodol fel y rhai a nodir yn adran C isod.
- c. Mae pen-blwydd y person ifanc yn 18 oed yn agosáu, (fel arfer dim cynharach na chwe mis cyn ei ben-blwydd yn 18 oed) ac mae'n debygol y bydd y cyfnod cychwynnol o ofal fel claf mewnol a'r gofal wedi hynny yn parhau ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed, ac felly byddai cael ei dderbyn i uned CAMHS yn golygu diffyg parhad hirdymor ac oedi wrth gael gafael ar ei ddarparwyr gofal tebygol ar gyfer y dyfodol agos. Byddai'n briodol yn yr achos hwn i'r person ifanc ddefnyddio'r uned oedolion fwyaf priodol ar gyfer ei gyflwr. Unwaith eto, disgwylir i ddewis y claf, ynghyd â chyngor y clinigydd a'r canlyniad a ddymunir i'r claf, lywio'r penderfyniad hwn.

2.9 Ward Ddynodedig i Oedolion

Gwnaeth gohebiaeth Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2001 (atodiad 1) atgoffa BILlau, pan fydd amgylchiadau'n golygu y dylid anfon person o dan 18 oed i ward oedolion, y dylai pob ardal BILl gael ward ddynodedig/wardiau dynodedig, neu ardaloedd wardiau sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn briodol o ran amgylchedd (ystafell ymolchi /cyfleusterau toiled dynodedig), hyfforddi staff a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i bob aelod o staff.

Bydd achlysuron yn codi, er enghraifft, os bydd rhywun yn dewis aros mewn ward oedolion, neu os na fydd gwely ar gael ar adeg yr argyfwng, lle y dylid darparu gwely dynodedig mewn ward oedolion. Dylai'r penderfyniad fod yn seiliedig ar anghenion clinigol, risg a dymuniadau'r person ifanc. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid ystyried hyn a phan fydd pob dewis arall a aseswyd yn awgrymu y byddai'n peri mwy o risg i'r person ifanc.

Ar ôl cael ei dderbyn i'r gwely dynodedig, os ystyrir bod gwely CAMHS yn briodol, yna'r disgwyl yw y bydd CAMHS yn gyfrifol am ddod o hyd i wely haen 4 o fewn 72 awr neu'n gynt. Mae seiciatrydd CAMHS neu seiciatrydd CAMHS ar alwad yn gyfrifol am ganiatáu i'r person gael ei dderbyn i'r gwely dynodedig. Bydd pob clinigydd sy'n gweithio yn CAMHS yn:

- Manteisio ar hyfforddiant arbenigol a ddarperir gan Arbenigwr CAMHS ym meysydd hunan-niwed, iselder ac anhwylderau bwyta.
- Manteisio ar hyfforddiant yn y defnydd o adnoddau asesu risg fel Aseiad Cyflym o Bobl Ifanc mewn Trallod, neu Rwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN). Mae rheoli Aseiad Risg yn rhan annatod o ofalu am bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl.
- Cael hyfforddiant ychwanegol mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 1983/2007 a Dal Plant a Phobl Ifanc yn Ddiogel.
- Mynychu Hyfforddiant Diogelu Plant (lefel 3) ar gyfer pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant.
- Cydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Cael gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Sicrhau y cynigir cyfleoedd i rieni ymweld a chyfleoedd addysgol os yw'n briodol.

2.10 Derbyn plant i unedau eraill

Gall fod gofyniad hefyd i unedau eraill dderbyn plant o dan yr amgylchiadau canlynol:-

- a. Pan fydd angen lleoliad diogel am fod y person ifanc yn ymddwyn mewn ffordd sy'n peri risg fawr iddo ef ei hun neu i eraill. Nid oes amgylcheddau gofal diogel isel neu ganolig ar gael yn unedau cleifion mewnol CAMHS yng Nghymru. Felly byddai angen i un o ddarparwyr gofal diogel CAMHS yn y DU ei dderbyn.
- b. Pan fydd statws cyfreithiol y claf yn golygu bod angen lleoliad diogel e.e. adran 37/41 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

- c. Mae'r peron ifanc o oedran ysgol gynradd neu mae ei ddatblygiad yn anaeddfed felly uned i blant ifanc yw'r lle sy'n diwallu ei anghenion orau. Yna byddai angen i ward bediatrig yng Nghymru neu ward plant yn y DU ei dderbyn.
- d. Mae gan y person ifanc anabledd dysgu difrifol ac mae'r anghenion yn golygu bod angen gwasanaethau anableddau dysgu arbenigol arno. Byddai angen i uned cleifion mewnol yn y DU ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu ei dderbyn mewn amgylchiadau eithriadol, a phe bai'n cael ei dderbyn oherwydd problemau iechyd meddwl byddai angen i wasanaethau cleifion mewnol CAMHS weithio'n agos gyda chlinigwyr Anableddau Dysgu i sicrhau bod y gofal yn briodol i ddiwallu anghenion yr unigolyn⁸.
- e. Mae gan y person ifanc nam sylweddol ar ei glyw ac mae angen gwasanaethau arbenigol ar gyfer Pobl Fyddar arno. Byddai angen i uned cleifion mewnol y Gwasanaethau Cenedlaethol i Blant Byddar ei dderbyn.
- f. Mae gan y person ifanc bryderon iechyd corfforol sylweddol y mae angen eu hasesu a'u trin ar unwaith, e.e. oherwydd anhwylderau bwyta difrifol neu ar ôl iddo niweidio ei hun. Yn yr achosion hyn bydd angen i ward bediatrig, adran damweiniau ac achosion brys neu ward feddygol (yn dibynnu ar y polisi'n lleol) ei dderbyn, a dylai'r achosion hyn gael eu rheoli yn unol ag argymhelliaid 7 o CR192 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion - rheoli hunan-niwed mewn pobl ifanc⁹. Er bod y rhyngweithio rhwng CAMHS ac unedau pediatrig a meddygol yn amrywio, ac er bod angen mwy o gysondeb a chyd-gynllunio, disgwylir i wasanaethau CAMHS weithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau ac y bydd arferion a pholisïau cyffredin ar waith ar gyfer digwyddiadau posibl o'r fath. Mae hyn yn cynnwys yr angen i'r hyfforddiant priodol i staff pediatrig, yr adran damweiniau ac achosion brys neu staff meddygol gynnwys ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Mae hyfforddiant o'r fath fel arfer ar gael fel ystod o fodiwlau e-ddysgu a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru, neu MindEd, a gynlluniwyd i fagu hyder er mwyn nodi problemau iechyd meddwl a gweithredu'n gyflym i wella canlyniadau i blant neu bobl ifanc. Nid yw'n briodol, ar ôl ymdrin â'r anghenion corfforol, trin y cyflwr iechyd meddwl ar wardiau pediatrig neu wardiau meddygol ar gyfer pobl ifanc hŷn. Os yw'n debygol y caiff rhywun ei dderbyn i uned cleifion mewnol iechyd meddwl, dylai'r gwaith cynllunio ddechrau cyn gynted ag y daw'r angen yn amlwg, nid ar ôl cwblhau pob myriad meddygol.
- k. Mae'n debygol y bydd oedi nes y gellir trosglwyddo'r person ifanc i'r uned cleifion mewnol berthnasol yn ddiogel. Gall hyn ddigwydd os bydd y claf yn sâl yn ystod oriau mân y bore, os bydd yr Unedau Cleifion Mewnol yng Nghymru yn llawn, neu os bydd angen cael mynediad i un o adnoddau cenedlaethol y DU.

⁸ <http://www.1000ofwydauamwy.wales.nhs.uk/news/30945>

⁹ <http://www.rcpsych.ac.uk/usefulresources/publications/collegereports/cr/cr192.aspx>

Diogelwch y plentyn fydd bwysicaf o dan amgylchiadau o'r fath. Rhaid i BILlau adrodd am y derbyniadau hyn o dan y dull adrodd am dderbyniadau amhriodol.

Pan fydd oedi cyn derbyn oherwydd yr adeg o'r dydd a phroblem cludiant, rhaid i'r clinigydd asesu'r risg a phenderfynu ar y lleoliad dros dro mwyaf priodol. Yn y rhan fwyaf o achosion y dewis fydd y ward bediatrig leol neu'r gwely dynodedig/CAMHS ar y ward oedolion. I blant dan 16 oed byddai disgwyl iddynt fynd i ward bediatrig. Pan fydd oedi oherwydd problemau wrth geisio cael gafael ar ddarpariaeth arbenigol yn y DU, gall yr opsiynau o ran lleoliad dros dro gynnwys lleoliad byrdymor yn yr unedau cleifion mewnol yng Nghymru os mai hyn yw'r lleoliad mwyaf diogel a phriodol. Ym mhob achos rhaid i asesiad risg gynnwys risg i'r person ei hun ac i eraill a all fod ar y ward. Anaml iawn y bydd yn briodol i blentyn dan 16 oed gael ei dderbyn i ward oedolion. Mae asesiadau risg a chynlluniau gofal wedi'u dogfennu'n glir yn hanfodol.

Ym mhob achos rhaid i bob plentyn a pherson ifanc a gaiff eu derbyn gael y cyfle i siarad ag eiriolwr annibynnol a bod yn rhan o'r broses o gynllunio eu gofal a'u triniaeth ar ôl i'r broses hon ddechrau. Dylai teulu a gofalwyr fod yn rhan ganolog o'r broses cynllunio gofal a thriniaeth a chael eu cefnogi gan wasanaethau (gweler yr atodiad am arferion ac egwyddorion da).

- Rhaid hysbysu'r nyrs diogelu arweiniol ym mhob Bwrdd Iechyd hefyd am bob achos.
- Yn ogystal ag adrodd am dderbyniadau, dylai byrddau iechyd, o bryd i'w gilydd, adolygu (bob blwyddyn o leiaf) eu digwyddiadau anffafriol, eu hanghenion nas diwallwyd a chomisiynu darpariaeth gwasanaethau fel y bo angen i ddiwallu anghenion y boblogaeth i gefnogi'r agenda comisiynu a hyfforddi yn y dyfodol. Dylai hyn hefyd lywio datblygiadau pellach o ddarpariaeth Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ym maes gofal i gleifion mewnol.

2.11 Argyfwng y tu allan i oriau

Mae gwasanaethau CAMHS yn gymharol fach a phrin yw'r adnoddau sydd ganddynt i ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr y tu allan i oriau yn annibynnol ar wasanaethau eraill/BILlau, heb leihau gwasanaethau oriau gweithio yn sylweddol i lefel annerbyniol. Felly, fel sydd wedi digwydd bob amser, disgwylir i bobl ifanc sy'n wynebu argyfwng y tu allan i oriau allu cael gafael ar yr agweddau hynny ar wasanaethau asesu sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd o'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion. Dylid gwella'r gwasanaethau drwy sicrhau bod y broses o gael gafael ar weithwyr proffesiynol arbenigol CAMHS yn glir ac amserol er mwyn cael cyngor arbenigol, cefnogaeth, gwasanaeth ymgynghori dros y ffôn a, lle y bo angen, asesu a rheoli uniongyrchol wyneb yn wyneb. Dylai Byrddau Iechyd Flaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael ym maes gwasanaethau CAMHS er mwyn sicrhau eu hunain fod Timau Triniaeth Ddwys Cymunedol (CITT) (neu

wasanaethau tebyg) yn gallu manteisio ar ddigon o arbenigedd CAMHS wrth reoli galwadau pobl ifanc yn ardal y BILL ar gyfer oriau estynedig.

Dylid datblygu llwybrau gweithio clir ar y cyd sy'n egluro rolau a chyfrifoldebau mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a phlant.

Mae'n ofynnol i feddygon iau dan hyfforddiant ym maes seiciatreg ddatblygu'r gallu i reoli argyfwng CAMHS er mwyn eu galluogi i asesu plant â phroblemau iechyd meddwl mewn argyfwng a gallant fod yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau gyda chymorth priodol gan staff meddygol CAMHS. Os bydd angen derbyn rhywun fel claf mewnol yna bydd hyn, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, o dan ofal gwasanaethau CAMHS oni fydd amgylchiadau eithriadol iawn a bod anghenion a/neu ddymuniadau penodol cleifion yn awgrymu y gallai gwasanaethau iechyd meddwl oedolion eu rheoli'n fwy diogel, fel y disgrifiwyd uchod. Dylai BILLau sicrhau;

- Bod gwasanaethau cymorth oriau estynedig ar gael sy'n defnyddio adnoddau CAMHS.
- Caiff pob un o dan 18 oed, y mae angen ei asesu mewn argyfwng y tu allan i oriau, ei asesu gan arbenigwr iechyd meddwl mewn lleoliad clinigol priodol er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn / person ifanc.
- Lle bo angen, byddant yn cydweithio â BILLau eraill a/neu WHSCC er mwyn darparu'r gwasanaethau sy'n ymateb i'r angen lleol mewn modd cynaliadwy a chymesur.
- Dylid ystyried bod derbyn rhywun dros 16 oed i ward iechyd meddwl oedolion y tu allan i oriau gwaith yn briodol mewn argyfwng ar yr amod y cynhelir asesiad risg o'r pryderon ynghylch y person hwnnw ac os tybir bod ei dderbyn yn briodol oherwydd y risg iddo ef ei hun neu i eraill a/neu'r angen i ddod o hyd i fan diogel iddo.

2.12 Adran 135 a 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Mae Adran 135 yn rhoi pŵer mynediad i swyddog yr heddlu gyda gwarant pan fydd angen er mwyn cyrraedd rhywun sydd ag anhwylder meddyliol nad yw mewn lle cyhoeddus, ac, os bydd angen, ei symud i fan diogel. Mae Adran 136 yn grymuso swyddog yr heddlu i symud, i fan diogel o le cyhoeddus, unrhyw un sy'n dioddef o anhwylder meddyliol ac y mae angen gofalu amdano a'i reoli ar unwaith. Dylai'r man diogel a ddynodwyd gan y bwrdd iechyd dderbyn y person hwnnw o dan adran 135/136 yn unol â phrotocolau lleol.

Ledled Cymru, cymharol fach yw'r defnydd a wneir o adran 135/136 i gadw plant a phobl ifanc dan orchymyn, ac yn 2013/14 cofnodwyd llai na 30 o episodau yn ôl y

sôn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Arfer Da (2012)¹⁰ o ran gweithredu adrannau 135 a 136 o Ddeddf 1983.

2.12.1 Mannau diogel i blant a phobl ifanc

Mae Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn egluro bod yn rhaid i'r man diogel mwyaf priodol i blant a phobl ifanc gael ei ystyried yn ofalus. Mae man diogel yng nghyd-destun adrannau 135 a 136 yn golygu:

- a. llety preswyl a ddarperir gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Cenedlaethol 1948;
- b. ysbyty (gan gynnwys ysbyty annibynnol); wardiau pediatrig addas neu Adrannau Brys neu mewn rhai amgylchiadau uned cleifion mewnol CAMHS
- c. cartref gofal i bobl ag anhwylder meddyliol;
- d. unrhyw le addas arall lle mae'r meddiannydd yn fodlon derbyn y claf dros dro.

Dim ond yn yr achosion mwyaf eithriadol y bydd gorsaf yr heddlu yn gweithredu fel y man diogel mwyaf priodol i gynnal asesiad iechyd meddwl ar gyfer plentyn a dylai hyn fod wedi'i gofnodi fel "digwyddiad byth" i unrhyw un 16 oed ac iau. Mae'r egwyddor hon yn gymwys i bob oedran, ond dylid rhoi sylw arbennig iddi mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, yn enwedig yng ngoleuni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 3), sy'n nodi y dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Os asesir unrhyw berson yng ngorsaf yr heddlu bydd angen adroddiad gan Bwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl y BILI neu un cyfatebol yn manylu ar y rhesymau eithriadol. Yn achos plentyn, dylid ystyried asesiad yng ngorsaf yr heddlu fel digwyddiad anffafriol difrifol (SUI) a dylid dilyn gweithdrefn SUI.

- Wrth gynnal asesiad o berson dan 18 oed, dylai meddyg cymeradwy a12(2) y Ddeddf Iechyd Meddwl¹¹ (Seiciatrydd ym maes Iechyd Meddwl Plant a'r

¹⁰

<http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/section/;jsessionid=0CswQf3fqCPmGQpS4ZW9TjpppsgQyFvyjvk3rrSVfVxhWv8BNnB9!-1988510053?lang=cy>

¹¹ Mae Adran 12 (2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn nodi, "Of the medical recommendations given for the purposes of any such application, one shall be given by a practitioner approved for the purposes of this section by the Secretary of State as having special experience in the diagnosis or treatment of mental disorder; and unless that practitioner has previous acquaintance with the patient, the other such recommendation shall, if practicable, be given by a registered medical practitioner who has such previous acquaintance."

Glasoed o ddewis, Gwasanaethau (CAMHS) ac Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMPH) (o ddewis un â phrofiad arbennig ym maes CAMHS) gynnal yr asesiad.

- Dylai pob ardal fod wedi cytuno ar brotocol a sicrhau bod man diogel dynodedig ar gyfer pobl ifanc ar gael yn yr ardal honno.
- Cyn gynted â phosibl ar ôl cyrraedd y Man Diogel, dylid cysylltu fel arfer â'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol.

Os ystyrir nad yw'n briodol i'r person ifanc sy'n ddarostyngedig i a135/136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl gael ei asesu mewn rhan o ysbyty cyffredinol fel yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu ward bediatrig, yna deuir i gytundeb, ar y cyd â CAMHS, i'w asesu yn y man diogel i oedolion, neu deithio i'r cyfleuster agosaf sy'n addas rywle arall yn y BILI neu drwy drefniant mewn BILlau eraill.

2.13 Lleoliadau y tu allan i'r ardal

Polisi Cymru yw sicrhau bod pob plentyn, lle y bo'n bosibl ac yn ymarferol, yn cael ei drin yn y GIG yng Nghymru. Gall defnyddio gwelyau gwag a throsglwyddo rhwng gogledd a de Cymru fod yn well ar adegau na lleoliadau yn Lloegr, os yw'r pellteroedd arfaethedig, neu'r amser teithio, yn golygu nad yw'n bellach o ran pellter. Bydd adegau'n codi pan fydd trosglwyddo i gyfleuster arbenigol yn Lloegr er budd yr unigolyn. Fodd bynnag, dylai niferoedd leihau wrth i gapasiti wella yn y ddwy uned cleifion mewnol yng Nghymru, ac mewn timau triniaeth ddwys cymunedol.

2.14 Pontio rhwng CAMHS a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (AMHS)

Dylid rheoli anghenion pobl ifanc yn y grŵp oedran pontio drwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan deilwra gwasanaethau gan CAMHS a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion i ddiwallu eu hanghenion. Ar adegau, gall hyn olygu y bydd pobl ifanc cymwys 17 oed yn dewis cael y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion gydag arbenigedd CAMHS yn llywio eu gofal.

2.15 Eiriolaeth

Diwygiwyd Deddf Iechyd Meddwl 1983 gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i ehangu'r cynllun Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol i bawb sy'n cael triniaeth ar gyfer eu hanhwylder meddyliol, gan gynnwys y rhai a dderbynnir i'r ysbyty yn anffurfiol. Dylai fod yn bosibl i blant a phobl ifanc gysylltu ag Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol sydd wedi cael hyfforddiant penodol i ddiwallu eu hanghenion.

Er nad yw'n wasanaeth eiriolaeth dynodedig, MEIC yw'r llinell gymorth genedlaethol o gyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac mae'n cynnig llinell gymorth

gyfrinachol am ddim 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. www.meiccymru.org.
Mae hyn yn ychwanegol at yr hawliau hynny i gleifion mewnol ddefnyddio hyn.

Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant
Department for Health, Social Services and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Chief Executives of Local Health Boards

Directors of Primary, Community
and Mental Health Services

Local Authority Directors of Social Services

Our Ref/Your Ref:

Date 14 December 2011

Dear Colleague

Extending the Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS) age range to 18 years, and transition between CAMHS and Adult Mental Health Services (AMHS)

You will be aware that Welsh Ministers have stipulated all children under 18 years of age with Mental Health needs should be cared for by CAMHS services by April 2012.

I am writing to ask you to ensure that LHBs and Local Authorities will be fully compliant with this requirement by that date. This is likely to mean that your area will be already running this age requirement in order that you have time to resolve any outstanding issues for your area. I attach with this letter a paper (Annex A) setting out our proposals for a joint approach to the provision of specialist mental health services for 16 & 17 year olds.

In addition, we would wish to remind you that there are clear expectations within previous guidance and under the Mental Health Act 1983 that children should be placed in an age appropriate environment and can only be accommodated on adult wards in exceptional circumstances. We would also remind you that even if an under 18 year old is briefly placed on an adult ward that each LHB area should have designated ward(s) where all appropriate processes (e.g. staff police checks and staff training regarding the needs of adolescents has been completed). In such circumstances the expectation is that CAMHS Psychiatry and Nursing would lead on care with support from Adult Mental Health Services (AMHS). A synopsis of the requirements is attached at Annex B. In particular I would draw your attention to the requirement to report all incidents of admission of children to adult wards as part of the Untoward Incident Procedure, irrespective of whether these are managed in line with the requirements of the Code of Practice. Anecdotal evidence suggests not all cases are being reported.

If you require any further clarification on these issues please contact me.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "S. Watkins". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underlining the name.

Dr Sarah Watkins

Is-adran Grwpiau Iechyd Meddwl ac Agored i Niwed
Head of Mental Health & Vulnerable Groups Division
Uwch Swyddog Meddygol

Senior Medical Officer

Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd
Public Health and Health Professions Department

Annex B

Admissions of Children under age 18 to adult psychiatric wards

In recent months there have been a number of cases of the admission of children, under the age of 18, to adult psychiatric wards. In addition, anecdotal evidence points to significant numbers of 16-18 year olds who are being cared for in Adult Mental Health Services.

The Welsh Government is clear that these incidents of admissions to adult wards, whilst relatively few, should not occur. When they do they are recorded via the Untoward Incident Procedure (though anecdotal evidence also indicates that not all incidents are reported) and monitored by the Welsh Government, through the Breaking the Barriers Delivery Assurance Group. This multiagency body exists to take forward our agenda for the emotional health and wellbeing of children and young people.

Since 2010 it has been a requirement under section 131A of the Mental Health Act 1983 that when an under 18 is admitted to a hospital that the environment is suitable having regard to their age. In order to fulfil this duty the Act also requires that the managers of the hospital should consult someone who appears to them to be suitable because they are experienced in CAMHS cases.

The Mental Health Act 1983 – Code of Practice for Wales states that “In a few cases, the child’s need to be accommodated in a safe environment could, in the short term, take precedence over the suitability for their age. It is also important to recognise the clear difference between a suitable environment for a young person in an emergency and a suitable longer-term environment for a young person..... Once the initial emergency has subsided, the hospital managers must consider what a suitable environment is....” (Paragraph 33.12).

The Welsh Government expects LHBs to adhere to the guidance in the Code of Practice and ensure that admissions of individuals under 18 should only occur when a formal assessment has taken place by CAMHS services of the child, irrespective of whether they are in or outside of education. We recognise that not every 16 or 17 year old is appropriate for inpatient care in local CAMHS units. Until they have been assessed and a formal decision made by a CAMHS specialist, all services must ensure that no child is excluded from CAMHS services. The issue as to whether or not the child is in full time education is irrelevant and is not a criterion for exclusion.

A further consideration is the requirements of the Mental Health (Wales) Measure 2010. This places the same obligation on CAMHS services as on services for adults and older people, to introduce Care and Treatment Planning from June 2012 for people within secondary mental health services. NLIAH and the NHS

Delivery Support Unit have been reviewing this in relation to its introduction for adults and older people and have commenced a similar review for CAMHS.

Where instances of admission do occur, adult and CAMHS services need to review the case to ensure that lessons are learnt for the future. In due course we will need to consider what further work is needed to assess current and future demand and service capacity to inform future planning and service models. In the meantime Health Boards and Local Authorities are expected to ensure that existing resources from adult and child mental health services are used in a coordinated manner to meet the requirements within their area.

Atodiad 2 - ARFERION DA

Enghraifft 1 - Siart Lif o'r Protocol Pontio

Nodir y claf gan CAMHS fel un y mae angen gofal parhaus arno gan y Gwasanaethau Oedolion chwe mis cyn ei ben-blwydd yn 18 oed. Cytunir ar hyn â Thîm Amlddisgyblaethol (MDT) CAMHS, trafodir y mater â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) lle bo angen eglurhad.



Gweithiwr CAMHS i roi gwybod i gydlynnydd y CMHT y bydd angen cydlynnydd gofal.



Cydlynnydd CMHT i ymateb (o fewn pedair wythnos) i'r gweithiwr CAMHS gan nodi enw'r cydlynnydd gofal a gynigir o'r gwasanaethau oedolion.



Gweithiwr CAMHS a gweithiwr Oedolion i ddechrau trafod er mwyn cynllunio/trefnu'r Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP). Gweithiwr CAMHS i gyd-drafod â'r cleient a'r teulu.



CTP i helpu gyda'r gwaith o gynllunio gofal yn y lleoliad mwyaf cyfleus i'r cleient/teulu - dylai pob parti fod yn bresennol. Cytuno ar y dyddiad pontio terfynol yn y cyfarfod CTP.



Cyfnod o gydweithio/gofal a rennir os bydd y drafodaeth yng nghyfarfod y CTP yn nodi bod angen hyn.



Trosglwyddo'n derfynol o CAMHS i AMHS ar adeg y cytunwyd arni yn y cyfarfod CTP cychwynnol.